Mawrth 2022

**Creu Lleoedd a Gofodau Iach – Digwyddiad 10 Chwefror 2022**

**Dogfen Gryno'r Gweithdy**

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu crynodeb o'r adborth a dderbyniom yn rhan o drafodaethau'r gweithdy, sy'n edrych ar ddata a thystiolaeth a chyfranogiad ac ymgysylltiad. Bydd yr adborth o'r ail weithdy, sy'n edrych ar y canllawiau a'r offer, yn llywio fersiynau terfynol yr offer hyn, a fydd ar gael yn yr adran Cynllunio Gofodol ac Iechyd ar wefan Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru.

**Gweithdy 1 – Data a Thystiolaeth**

Roedd y rhan hon o'r gweithdy yn archwilio'r data a'r dystiolaeth sy'n cael eu defnyddio gan gynllunwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol ar hyn o bryd, er mwyn arwain y gwaith ar iechyd a chynllunio, a'r hyn fyddai'n ddefnyddiol i'w gael a sut y gellir gwella cydweithio. Mae'r adnoddau data hyn wedi'u hamlinellu yn Atodiad A.

**Pa ddata a thystiolaeth fyddai'n ddefnyddiol?**

- Data gofodol a chapasiti cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd
- Proffiliau iechyd ar gyfer ardaloedd
- Data sy'n benodol i bynciau, gan gynnwys data wedi'u mapio megis ar gyfer gofodau gwyrdd a theithio llesol
- Data ar wahanol raddfeydd h.y. ar lefel ward. Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA)
- Defnyddio offer gwahanol megis dangosfyrddau
- Data iechyd cronig hirdymor
- Mewnbwn gan fyrddau iechyd i siapio gwaith
- Helpu i ddehongli data
- Defnyddio data iechyd i lywio rheoli ac atal digwyddiadau e.e. llifogydd
- Straeon am benderfynyddion iechyd a phenderfynyddion ehangach iechyd i ddod â phrofiadau bywyd yn fyw

**Pa gamau y mae angen eu cymryd i gyflawni hyn?**

- Datblygiad proffesiynol: Cynllunwyr / Gweithwyr iechyd proffesiynol / Gwleidyddion
- Canllawiau / Rhannu arferion da a data / Offer ymgysylltu
- Sefydlu cysylltiadau ac eglurder o ran sut mae sefydliadau yn gweithio a sut mae cysylltu â'r gwaith hwn
- Ymgysylltu rhagweithiol rhwng iechyd a chynllunio ac adnoddau i hwyluso hyn
- Agendâu a nodau a rennir
- Adolygu canllawiau cynllunio cenedlaethol – mwy rhagweithiol ar gyfer polisïau cenedlaethol iechyd / cryfach i lywio polisïau lleol e.e. asesiad o'r effaith ar iechyd (HIA) ar gyfer safleoedd strategol
- Ymateb iechyd y cyhoedd wedi'i gysoni

**Cyfleoedd ar gyfer cydweithio**

- Cysylltiadau allweddol i alluogi trafodaethau a rhannu gwybodaeth, blaenoriaethau, data a gwybodaeth i helpu i sicrhau alinio e.e. digwyddiadau ar y cyd / amgylcheddau egnïol / amgylcheddau bwyd
- Gweithio'n agos gydag adrannau iechyd amgylcheddol
- Cyfranogiad cynnar a pharhaus ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol e.e.
    - darparu manylion safle ymgeisiol
    - rhannu tystiolaeth ac arferion da
    - archwilio cyfleoedd ar gyfer gofodau a chyfleusterau a rennir – datblygiadau cydweithredol
- Grwpiau llywio trawsddisgyblaethol ar gyfer gwaith HIA
- Ymgysylltu a gweithio gyda sefydliadau megis Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau cyfleustodau

**Gweithdy 1 – Cyfranogiad ac Ymgysylltiad**

Archwiliodd y rhan hon o'r gweithdy y cydweithrediad a'r ymgysylltiad sy'n digwydd ar hyn o bryd rhwng cynllunwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol i arwain y gwaith ar iechyd a chynllunio, a hefyd sut yr ymgysylltir â chymunedau mewn perthynas â chynllunio. Ystyriodd y gweithdy hefyd beth arall fyddai'n ddefnyddiol at ddibenion cydweithio.

**Cydweithio Presennol: rhwng gweithwyr proffesiynol**

- E-byst at gysylltiadau byrddau iechyd
- Swyddogion ymgysylltu
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cyfarfodydd gweithgorau rheolaidd i nodi ffordd o ymgysylltu â rhanddeiliaid – Conwy

**Cydweithio Presennol: gyda chymunedau**

- Digwyddiadau / ymgynghoriadau / gweithdai – rhanddeiliaid penodol a'r cyhoedd
- Ar-lein ac wyneb yn wyneb
- Cyfryngau cymdeithasol / platfformau ar-lein e.e. Platfform 'Dewch i Siarad' Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Rhestrau postio / Holiaduron copi caled a blychau postio lleol
- Cynlluniau lleoedd – gweithio gyda chynghorau tref a chymuned
- Proses HIA – tîm y prosiect a grŵp llywio
- Proses y cais cynllunio
- Trwy grwpiau presennol
- Dulliau cymunedol cyfranogol
- Ymchwilwyr / ysgogwyr cymunedol cyflogedig
- Gwahanol fathau o ymgysylltu, celfyddydau, ffilm, fideo, offer gweledol dychmygus

**Problemau neu rwystrau mewn perthynas ag ymgysylltu**

- Amseru, adnoddau a sgiliau
- Hygyrchedd prosesau – jargon technegol / strwythur sefydliadau
- Gor-ymgynghori
- Nid yn unig am gael yr offer ond am y ffordd y cânt eu defnyddio hefyd
- Deall â phwy y dylid ymgysylltu a sicrhau ymgysylltu cynnar
- Eglurder ynghylch yr hyn y gall y system gynllunio ei gyflawni
- Cymunedau o ddatblygiadau newydd ddim yn bodoli eto
- Angen myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd a gwerthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd
- Angen magu hyder mewn perthynas â sut i fewnbynnu i'r system – rôl ddefnyddiol i hwyluswyr allanol
- Cyfyngiadau ar offer e.e. adnoddau ar-lein
- Diffyg ymddiriedaeth yn y system gynllunio
- Pobl yn teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt
- Diffyg eglurder mewn perthynas â chysylltiadau
- Angen cryfhau agwedd cynllunio gofodol iechyd a llesiant – sut mae hyn yn dylanwadu ar iechyd cenedlaethau'r dyfodol

**Atodiad A**

**Adnoddau data a ddefnyddir ar hyn o bryd:**

| **Data poblogaeth** | | |
|---|---|---|
| **Ffynhonnell data / gwybodaeth** | **Cynnwys / ffocws data** | **Dolen we** |
| Map Data Cymru (Llywodraeth Cymru) | Data a mapiau sector cyhoeddus (gwybodaeth ddaearyddol a gwasanaethau cysylltiedig) | Hafan \| MapDataCymru (llyw.cymru) |
| Y Swyddfa Ystadegau Gwladol | Ystadegau poblogaeth (Cyfrifiad, cyfraddau cyflogaeth, tueddiadau poblogaeth ac ati) | Home - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) |
| Stats Cymru (Llywodraeth Cymru) | Data swyddogol ar gyfer Cymru (gan gynnwys addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, poblogaeth a mudo a'r amgylchedd) | Catalog (llyw.cymru) |
| Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Llywodraeth Cymru) | Mesurau amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \| LLYW.CYMRU |
| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Tueddiadau'r Dyfodol (Llywodraeth Cymru) | Adroddiad ar dueddiadau'r dyfodol mewn 4 maes allweddol:<br>• Pobl a Phoblogaeth<br>• Anghydraddoldebau<br>• Iechyd a Therfynau'r Blaned<br>Technoleg | Tueddiadau'r Dyfodol: 2021 \| LLYW.CYMRU |
| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Dangosyddion Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru) | Data a chrynodebau ar gyfer pob un o'r dangosyddion llesiant cenedlaethol | Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol \| LLYW.CYMRU |
| Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru) | Arolwg poblogaeth cenedlaethol ar ystod eang o bynciau gan gynnwys llesiant, cyllid, tai, chwaraeon a diwylliant | Arolwg Cenedlaethol Cymru \| LLYW.CYMRU |
| Data Cymru (CLlLC) | Yn darparu mynediad i ystod eang o ddata a chymorth i ddefnyddio data ac ymchwil | Hafan - Data Cymru |
| Nomis (ONS) | Ystadegau cyflogaeth a'r farchnad lafur | Nomis - Official Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk) (Ar gael yn Saesneg yn Unig) |
| **Data iechyd** | | |

| Ffynhonnell data / gwybodaeth | Cynnwys / ffocws data | Dolen we |
|---|---|---|
| Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd – Iechyd yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru) | Data canlyniadau iechyd y boblogaeth (disgwyliad oes, cyflyrau cronig, ymddygiadau ffordd o fyw, lles meddyliol ac ati) | Data a dadansoddi - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) |
| Data Rhaglen Mesur Plant (Iechyd Cyhoeddus Cymru) | Mesur taldra a phwysau plant yn y flwyddyn Derbyn. Mesur allweddol ar gyfer gordewdra ymysg plant a phlant sydd dros bwysau. | Rhaglen Mesur Plant Cymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) |
| Data iechyd y cyhoedd (Iechyd Cyhoeddus Cymru) | Data iechyd y cyhoedd ar amrywiaeth o bynciau (sgrinio, imiwneiddiadau, clefydau a heintiau, canser ac ati) | Data - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) |
| **Data amgylcheddol** | | |
| **Ffynhonnell data / gwybodaeth** | **Cynnwys / ffocws data** | **Dolen we** |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Porth gwybodaeth amgylcheddol Cymru (llifogydd, ansawdd aer, cynefinoedd ac ati)<br>Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal | • Cyfoeth Naturiol Cymru / BETA: porth gwybodaeth amgylcheddol Cymru (naturalresources.wales)<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 (naturalresources.wales)<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiadau Ardal (naturalresources.wales) |
| Data amgylcheddol Iechyd y Cyhoedd (Iechyd Cyhoeddus Cymru) | Gwybodaeth Iechyd yr Amgylchedd i gefnogi byrddau iechyd wrth wneud sylwadau ar geisiadau neu ganiatâd cynllunio | https://publichealthwales.shinyapps.io/EnvironmentalIndicatorsV1/(Ar gael yn Saesneg yn unig) |
| **Cynllunio ac Iechyd (Amgylchedd a Phoblogaeth) Tystiolaeth a Phecynnau Cymorth** | | |
| **Ffynhonnell data / gwybodaeth** | **Cynnwys / ffocws data** | **Dolen we** |
| Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer | Crynodeb o dystiolaeth am chwe maes blaenoriaeth yr amgylchedd naturiol ac adeiledig ac effaith ar iechyd | Creu Lleoedd Iachach |

| | | |
|---|---|---|
| cenedlaethau'r dyfodol (Iechyd Cyhoeddus Cymru) | | |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (Llywodraeth Cymru) | Y System gynllunio yn sicrhau dyfodol cydnerth a mwy disglair: creu lleoedd a'r adferiad COVID-19 | Adeiladu Lleoedd Gwell |
| Adolygiad tystiolaeth o gynllunio gofodol ar gyfer iechyd (Public Health England) | Mae'r adolygiad yn rhoi egwyddorion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer dylunio lleoedd iach i gynllunwyr iechyd y cyhoedd a chymunedau lleol | Spatial planning for health: evidence review - GOV.UK (www.gov.uk) (Ar gael yn Saesneg yn unig) |
| Cynllunio gofodol ac iechyd – rhoi ymchwil ar waith (GRIP) (Public Health England) | Astudiaeth yn archwilio cyfleoedd a heriau o gymhwyso egwyddorion 'Cynllunio Gofodol ar gyfer Iechyd' | Spatial planning and health: Getting Research into Practice (GRIP) - GOV.UK (www.gov.uk) (Ar gael yn Saesneg yn Unig)) |
| Dementia a chynllunio trefol (RTPI) | Nodyn ymarfer ar sut y gall cynllunio trefol weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i greu amgylcheddau gwell i bobl sy'n byw gyda dementia | Dementia a chynllunio trefol (Ar gael yn Saesneg yn unig) |
| Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach: ymgorffori templed ar gyfer polisi cynllunio (Iechyd Cyhoeddus Cymru) | Yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol ehangach sy'n effeithio ar iechyd, llesiant ac anghydraddoldebau. Yn cynnwys templed Canllawiau Cynllunio Atodol | Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach |
| Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl): Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer (Iechyd Cyhoeddus Cymru) | Pecyn cymorth i gefnogi'r defnydd o HIAs wrth ddatblygu CDLl | Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) |
| Cynlluniau ac Asesiadau Llesiant Lleol (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru) | Mae asesiadau llesiant yn nodi sut y bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflawni cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus \| LLYW.CYMRU |
| Cynllun Gweithredu Adfer Natur (Llywodraeth Cymru) | Mae Strategaeth ar gyfer Natur yn nodi ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru | Cynllun Gweithredu Adfer Natur \| LLYW.CYMRU |
| Gwybodaeth am Gymru ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur (WINS) (Cyfoeth Naturiol Cymru) | Offeryn mapio ar gyfer ardaloedd o amddifadedd i nodi cyfleoedd i dargedu llifogydd / llygredd sŵn ac ati. Gall awdurdodau lleol a datblygwyr ddefnyddio'r data | Gwybodaeth am Gymru ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur (WINS) (arcgis.com) |

| | | |
|---|---|---|
| Pecyn Cymorth Prisio Seilwaith Gwyrdd (Ecosystems Knowledge Network) | Set o offer cyfrifo i asesu gwerth ased gwyrdd neu fuddsoddiad gwyrdd arfaethedig | Green Infrastructure Valuation Toolkit (GI-Val) \| Ecosystems Knowledge Network (Ar gael yn Saesneg yn unig) |
| Nodau Datblygu Cynaliadwy (Cenhedloedd Unedig) | 17 nod datblygu cynaliadwy | THE 17 GOALS \| Sustainable Development (un.org) (Ar gael yn Saesneg yn unig) |
| Mesur gwerth cymdeithasol cenedlaethol ar gyfer Cymru (Tasglu Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol) | Fframwaith yn seiliedig ar gamau gweithredu i alluogi asesiad o gyfraniad gwerth cymdeithasol i'r Ddeddf Llesiant | National TOMs: Wales — National Social Value Taskforce (Ar gael yn Saesneg yn unig) |

**Ffynonellau data a thystiolaeth posibl eraill:**

| |
|---|
| • Asesiadau Seilwaith Gwyrdd |
| • Asesiadau Lleoedd Chwarae a Mannau Agored |
| • Datganiadau Ardal |
| • Asesiadau Ansawdd Aer |
| • Data teithio llesol a thrafnidiaeth |
| • Asesiadau Effaith gan gynnwys HIA |
| • Cynghorau Tref a Chymuned gan gynnwys cynlluniau lleoedd |
| • Mapio GIS |
| • Llenyddiaeth academaidd |
| • Cynlluniau ac adroddiadau Byrddau Iechyd Lleol |

**Cyfleoedd cydweithio**

- Cydweithio ar Gynlluniau Datblygu Lleol gan gynnwys cynlluniau HIA a llesiant
- Swyddi ar y cyd megis secondiad Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) presennol – cynllunio gofodol ac iechyd / lleoli gweithwyr iechyd proffesiynol mewn awdurdodau lleol i ehangu'r agenda
- Dysgu gan eraill ar lefel gymunedol a phrosiectau ymgysylltu cymunedol â ffocws
- Amserlenni cydlynol
- Deall tueddiadau
- Cyfarfodydd rheolaidd a rhannu gwybodaeth megis technegau ymgynghori, dolenni cyfryngau cymdeithasol
- Cynlluniau dan arweiniad iechyd y cyhoedd
- Mae'r pandemig yn rhoi cyfle, o ystyried yr heriau y mae ac y bydd yn eu codi / amlygu ar gyfer iechyd a llesiant, addysg, yr economi, trafnidiaeth ac ati. – heriau y gellir mynd i'r afael â hwy yn rhannol drwy gynllunio a thrwy ystyriaethau iechyd.

**Enghreifftiau o Offer Ymgysylltu:**

- Llywodraeth Cymru: Adnoddau Addysg ar Gynllunio Ein Cymru
  - Ysgol Gynradd – Cronfa – Hwb (llyw.cymru)
  - Ysgol Uwchradd – Cronfa – Hwb (llyw.cymru)
- Offer Cymorth Cynllunio Cymru – Ymgysylltu Cymunedol – Cymorth Cynllunio Cymru